**PWYLLGOR CYFLE CYFARTAL EOC-01-99(min)**

**Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor**

**Dyddiad:** Dydd Iau 22 Gorffennaf 1999

**Amser:** 09:00 i 12:30

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Yn bresennol**

| | | |
|---|---|---|
| Christine Chapman | Llafur | Cwm Cynon |
| Richard Edwards | Llafur | Preseli Sir Benfro |
| Jane Hutt (Cadeirydd) | Llafur | Bro Morgannwg |
| Carwyn Jones | Llafur | Pen-y-bont ar Ogwr |
| Helen Mary Jones | Plaid Cymru | Llanelli |
| David Melding | Ceidwadwr | Canol De Cymru |
| Janet Ryder | Plaid Cymru | Gogledd Cymru |
| Kirsty Williams | Democrat Rhyddfrydol | Brycheiniog a Sir Faesyfed |

| | |
|---|---|
| Kate Cassidy | Pennaeth yr Adran Gweinyddu Cyhoeddus, Cydraddoldeb a Phenodiadau Cyhoeddus |
| Charles Willie | Pennaeth Uned Polisi Cydraddoldeb |
| | |
| Andrew George | Clerc |

| | |
|---|---|
| Vaughan Watkin | Dirprwy Glerc (Dros Dro) |

Cafwyd ymddiheuriadau oddi wrth Glyn Davies, Jocelyn Davies ac Edwina Hart.

**Eitem 1 ar yr agenda: Sylwadau agoriadol y Cadeirydd**

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i gyfarfod cyntaf y Pwyllgor. Dywedodd fod awydd ac ymrwymiad diffuant yn y Cynulliad i fynd i'r afael â gwahaniaethu ac anfantais. Rhoddwyd dyletswydd ar y Cynulliad o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru i sicrhau cyfle cyfartal. Gellid gweld ei bwysigrwydd o ystyried mai hwn oedd un o ddim ond dau bwyllgor sefydlog gyda dyletswydd sy'n ymestyn drwy holl swyddogaethau'r Cynulliad.

1.2 Mae dyletswydd ar y Pwyllgor sicrhau bod gan y Cynulliad drefniadau effeithiol i hybu egwyddor cyfle cyfartal i bawb yng Nghymru. Cafwyd cychwyn cadarn drwy sefydlu Uned Polisi Cydraddoldeb sydd wedi datblygu cynllun gweithredu eisoes i sicrhau bod cyfle cyfartal wrth galon popeth mae'r Cynulliad yn ei wneud.

1.3 Yr oedd gan y Pwyllgor swyddogaeth bwysig o ran monitro ac archwilio, a bennwyd yn y Rheolau Sefydlog. Yr oedd angen sicrhau bod y fframwaith iawn ar waith i helpu'r Cynulliad, Ysgrifenyddion y Cynulliad a phob pwyllgor i hybu cyfle cyfartal. Ar ôl sefydlu'r fframwaith, yr oedd angen sicrhau ei fod yn arwain at flaenoriaethau a thargedau eglur y gellid mesur gweithredoedd y Cynulliad yn eu herbyn.

1.4 Nid ar y pwyllgor hwn yn unig fyddai'r cyfrifoldeb dros gyfle cyfartal. Yr oedd cyfle cyfartal yn gyfrifoldeb corfforaethol ac yn thema ganolog y mae'n rhaid iddi ddylanwadu ar bolisi. Yr oedd angen i bawb gymhwyso egwyddor cyfle cyfartal yn hollol naturiol wrth iddynt wneud eu gwaith pob dydd. Dylid ei ystyried fel rhan angenrheidiol o ymagwedd proffesiynol.

**Eitem 2: Cyflwyniadau gan y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol, Anabledd Cymru, a'r Comisiwn Cyfle Cyfartal**

**Y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol (Ray Singh)**

2.1 Diolchodd Mr Singh i'r Aelodau am y cyfle i siarad â'r Pwyllgor a rhoes groeso i sylwadau adeiladol a chalonogol y Cadeirydd. Teimlai fod angen i'r Cynulliad edrych ar ddarlun ehangach o ran gwahaniaethu. Yr oedd angen gweithredu'n benodol o ran monitro ethnig, ymgynghori â grwpiau du ac ethnig, ac arweinyddiaeth.

2.2 Yr oedd monitro'n hanfodol er mwyn canfod a lleihau gwahaniaethu. Byddai ymgynghori â grwpiau du ac ethnig yn caniatáu i'r Cynulliad ddeall y problemau o'i flaen. Mae angen i'r Cynulliad roi cyfarwyddyd eglur ar y materion hyn. Yr oedd arweinyddiaeth yn hanfodol. Yr oedd rhoi pen ar wahaniaethu ar sail hil yn her ar gyfer y mileniwm i'r Deyrnas Unedig gyfan ond yn enwedig i Gymru. Yr oedd yn rhaid gweithredu er mwyn sicrhau bod hyn yn digwydd ac yr oedd gan y Pwyllgor ran hanfodol i'w chwarae.

**Y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol (Cherry Short)**

2.3 Cytunai Ms Short â sylwadau ei chyd-Gomisiynydd. Ychwanegodd y gallai'r fforwm ymgynghori lleiafrifoedd du ac ethnig a'i is-grwpiau helpu'r Cynulliad i gael barn uniongyrchol y cymunedau du ac ethnig. Bu'r cymunedau hyn yn rhan o gymdeithas Cymru ers cenhedloedd a dylent fod yn gallu lleisio eu barn yn y Cynulliad.

**Anabledd Cymru (Howard John)**

2.4 Cymdeithas genedlaethol grwpiau anabledd Cymru yw Anabledd Cymru sy'n gweithio i hybu hawliau, cydnabyddiaeth, cynhwysiant a chymorth i bobl anabl. Dywedodd Mr John fod yr ystadegau'n awgrymu bod gan dros 400,000 o bobl Cymru amhariad corfforol neu synhwyrol, anhawster dysgu neu broblem iechyd meddwl. Yr oedd oedran yn chwarae rhan mewn amhariadau corfforol a synhwyrol ac mae newid demograffig yn effeithio arnynt hefyd.

2.5 Effeithiai pob un o benderfyniadau a pholisïau'r Cynulliad ar bobl anabl ac mae gan bob penderfyniad a pholisi sy'n effeithio ar bobl anabl oblygiadau i'r gymuned ehangach. Yr oedd hyn yn cynnwys gwaith adrannau ac asiantaethau'r Cynulliad, cyrff a noddir gan y Cynulliad a chyrff sy'n cael eu monitro drwy'r Cynulliad o dan raglenni a ariennir gan Ewrop.

2.6 Wrth drafod dywedodd yr Aelodau fod trefniadau mynediad adeilad newydd y Cynulliad yn destun pryder. Cytunodd y Pwyllgor i gymryd diddordeb yng nghynlluniau'r adeilad newydd a gofynnwyd i'r Cadeirydd godi'r mater â'r Prif Ysgrifennydd.

**Y Comisiwn Cyfle Cyfartal (Mary Dunford)**

2.7 Dywedodd Ms Dunford fod llawer o anghydraddoldeb rhwng benywod a gwrywod yn y gweithle. Yr oedd cyfle cyfartal o ran gwaith a hyfforddiant yn hanfodol a gallai'r Cynulliad fabwysiadu model o arferion da a allai gyflawni'r amcanion hyn. Yr oedd angen i'r Cynulliad wreiddio cyfartaledd ym mhob un o'i bolisïau a'i fecanweithiau cyflawni. Yr oedd data sylfaenol yn hanfodol er mwyn gosod targedau go iawn.

2.8 Yr oedd y pwyslais ar roi'r mater wrth galon y Cynulliad yn adeiladol ond byddai angen hyfforddi pob un o'i weithwyr. Yr oedd anghydraddoldeb gendr o ran tâl yn bodoli o hyd. Byddai ymagwedd radicalaidd yn gofyn am archwiliad tâl i gael gwared ar anghydraddoldeb fel rhan o weithdrefnau cydymffurfio â chontractau'r Cynulliad.

2.9 Diolchodd y Pwyllgor i'r tri chorff am eu cyflwyniadau. Byddai diddordeb mawr gan y Pwyllgor wrth sicrhau bod trafod â grwpiau sy'n cynrychioli diddordebau lleiafrifoedd a'r rhai o dan anfantais yn digwydd ar bob lefel yn y Cynulliad. Yr oedd Aelodau'r Pwyllgor o blaid rhoi gwahoddiad sefydlog i bob un o'r tri chorff i fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor fel ymgynghorwyr yn unol â Rheol Sefydlog 14.4.

**Eitem 3 ar yr agenda: Cyflwyniad gan yr Uned Polisi Cydraddoldeb**

3.1 Esboniodd Kate Cassidy ran ehangach ei Hadran a gwahodd Charles Willie i esbonio swyddogaeth yr Uned. Dywedodd ef fod yr uned wedi'i chreu i roi cyfle cyfartal wrth galon holl bolisïau a swyddogaethau'r Cynulliad. Yr oedd wedi ceisio mabwysiadu ymagwedd gynhwysfawr a chael hyd i ymagwedd gydlynol i bob mater cydraddoldeb. Un o amcanion allweddol yr Uned oedd rhoi'r medrau a'r wybodaeth i adrannau trwy gydol y Cynulliad iddynt ystyried cyfle cyfartal yn llawn. Yr oedd cysylltiadau da wedi'u sefydlu â chyrff allanol ac yr oedd yr Uned wedi cynhyrchu Cynllun Gweithredu y byddai'r Pwyllgor yn ei ystyried o dan yr eitem nesaf ar yr agenda.

**Eitem 4: Ymagwedd arfaethedig i gyfle cyfartal o fewn Cynulliad Cenedlaethol Cymru Papur EOC 01-99 (p.1)**

4.1 Cyflwynodd y Cadeirydd bapur EOC-01-99(p.1) a ofynnai i'r Pwyllgor gefnogi ei chynigion ar gyfer bwrw ymlaen â chyfle cyfartal yn y Cynulliad. Byddai'r canolbwynt ar anabledd, hil a gendr ar y dechrau. Mater i'r Cynulliad cyfan fyddai Cyfle Cyfartal yn hytrach nag i'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal yn unig. Byddai gan y Cadeirydd, Ysgrifenyddion y Cynulliad, y Pwyllgor Cyfle Cyfartal, y pwyllgorau eraill a'r Cynulliad cyfan ran strategol i'w chwarae er mwyn cyflawni hyn.

4.2 Asesiad sylfaenol oedd man cychwyn y Cynllun Gweithredu er mwyn canfod safle'r Cynulliad o ran cyfle cyfartal ar draws pob maes ac fel corff cyfan. Yn ail, byddai pob Ysgrifennydd Cynulliad yn cynnig blaenoriaethau a thargedau ar sail yr asesiad hwnnw. Yn drydydd, yr oedd angen codi ymwybyddiaeth a dyfnhau dealltwriaeth. Yr oedd angen i bob rhan o'r Cynulliad ddatblygu cysylltiadau â'r rhai sy'n cynrychioli grwpiau sydd o dan anfantais a llunio polisïau ar sail y cyngor a chanllawiau a ddarperir.

4.3 Croesawodd yr Aelodau'r ymagwedd hon. Cymeradwywyd y canolbwynt cychwynnol ar anabledd, hil a gendr er bod yr Aelodau'n nodi'r angen i ystyried ffynonellau eraill o wahaniaethu a dieithriwch cymdeithasol gan gynnwys oedran, credoau crefyddol a thuedd rywiol. Yr oedd sylwadau eraill, gan gynnwys:

- dymunoldeb trafod adroddiadau blynyddol y cyrff cydraddoldeb perthnasol
- yr angen i fonitro rhaglenni gwaith y pwyllgorau pwnc. Gofynnwyd i'r Clerc roi manylion o'r rhain. Dylai'r Cadeirydd godi'r mater o ddiffyg cynrychiolaeth ar y Pwyllgor Addysg o dan 16 Oed, a'r Pwyllgor Ewropeaidd gyda'r Prif Ysgrifennydd
- yr angen i bob Aelod a staff gael hyfforddiant priodol
- dylai'r ymagwedd gynnwys cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad
- dylai'r Pwyllgor ddangos y ffordd ymlaen a chymryd camau ymarferol i gadarnhau ei ymagwedd lle bo angen.

**Eitem 5: Blaen-raglen waith a Gweithdrefnau**

5.1 Dywedodd y Cadeirydd y byddai'r Pwyllgor yn ceisio cyfarfod unwaith y mis. Cytunodd yr Aelodau mai sesiwn briffio fyddai'r cyfarfod nesaf, ar 16 Medi. Yr oedd yn bosib hefyd y byddai sesiynau briffio ychwanegol yn yr hydref pe byddai eu hangen. Byddai'r Cadeirydd yn cylchredeg rhaglen awgrymedig. Cytunwyd y bydd y Pwyllgor yn cyfarfod y tu allan i Gaerdydd unwaith y flwyddyn o leiaf.

5.2 Nododd y Cadeirydd fod ceisiadau yn dod i'w llaw oddi wrth gyrff â diddordeb yn gofyn am gyfarfod â'r Pwyllgor. O gofio pwysau amser yr Aelodau, er y byddai rhai cyrff yn cael eu gwahodd i gyfarfod â'r Pwyllgor cyfan o bosib, cytunwyd y dylai dirprwyaethau amlbeidiol gyfarfod ag eraill a rhoi adroddiadau yn ôl i'r Pwyllgor. Cytunai'r Aelodau y dylai dirprwyaethau gyfarfod â Phwyllgor Menywod TUC Cymru a Gwasanaeth Ymgynghorol Cydraddoldeb Cysylltiadau Hiliol.

5.3 Codwyd pryder ynghylch a fyddai digon o weithwyr yn yr Uned Polisi Cyfartaledd i gyflawni’r rhaglen waith sylweddol a oedd newydd ei mabwysiadu. Nododd y Cadeirydd y pryderon hyn.

4. Daeth y cyfarfod i ben am 12.35pm.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Gorffennaf 1999**

**PWYLLGOR CYFLE CYFARTAL EOC-01-99(min)**

**Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor**

**Dyddiad:** Dydd Iau 22 Gorffennaf 1999

**Amser:** 09:00 i 12:30

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Yn bresennol**

| | | |
|---|---|---|
| Christine Chapman | Llafur | Cwm Cynon |
| Richard Edwards | Llafur | Preseli Sir Benfro |
| Jane Hutt (Cadeirydd) | Llafur | Bro Morgannwg |
| Carwyn Jones | Llafur | Pen-y-bont ar Ogwr |
| Helen Mary Jones | Plaid Cymru | Llanelli |
| David Melding | Ceidwadwr | Canol De Cymru |
| Janet Ryder | Plaid Cymru | Gogledd Cymru |
| Kirsty Williams | Democrat Rhyddfrydol | Brycheiniog a Sir Faesyfed |

| | |
|---|---|
| Kate Cassidy | Pennaeth yr Adran Gweinyddu Cyhoeddus, Cydraddoldeb a Phenodiadau Cyhoeddus |
| Charles Willie | Pennaeth Uned Polisi Cydraddoldeb |
| | |
| Andrew George | Clerc |
| Vaughan Watkin | Dirprwy Glerc (Dros Dro) |

Cafwyd ymddiheuriadau oddi wrth Glyn Davies, Jocelyn Davies ac Edwina Hart.

**Eitem 1 ar yr agenda: Sylwadau agoriadol y Cadeirydd**

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i gyfarfod cyntaf y Pwyllgor. Dywedodd fod awydd ac ymrwymiad diffuant yn y Cynulliad i fynd i’r afael â gwahaniaethu ac anfantais. Rhoddwyd dyletswydd ar y Cynulliad o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru i sicrhau cyfle cyfartal. Gellid gweld ei bwysigrwydd o ystyried mai hwn oedd un o ddim ond dau bwyllgor sefydlog gyda dyletswydd sy’n ymestyn drwy holl swyddogaethau’r Cynulliad.

1.2 Mae dyletswydd ar y Pwyllgor sicrhau bod gan y Cynulliad drefniadau effeithiol i hybu egwyddor cyfle cyfartal i bawb yng Nghymru. Cafwyd cychwyn cadarn drwy sefydlu Uned Polisi Cydraddoldeb sydd wedi datblygu cynllun gweithredu eisoes i sicrhau bod cyfle cyfartal wrth galon popeth mae'r Cynulliad yn ei wneud.

1.3 Yr oedd gan y Pwyllgor swyddogaeth bwysig o ran monitro ac archwilio, a bennwyd yn y Rheolau Sefydlog. Yr oedd angen sicrhau bod y fframwaith iawn ar waith i helpu'r Cynulliad, Ysgrifenyddion y Cynulliad a phob pwyllgor i hybu cyfle cyfartal. Ar ôl sefydlu'r fframwaith, yr oedd angen sicrhau ei fod yn arwain at flaenoriaethau a thargedau eglur y gellid mesur gweithredoedd y Cynulliad yn eu herbyn.

1.4 Nid ar y pwyllgor hwn yn unig fyddai'r cyfrifoldeb dros gyfle cyfartal. Yr oedd cyfle cyfartal yn gyfrifoldeb corfforaethol ac yn thema ganolog y mae'n rhaid iddi ddylanwadu ar bolisi. Yr oedd angen i bawb gymhwyso egwyddor cyfle cyfartal yn hollol naturiol wrth iddynt wneud eu gwaith pob dydd. Dylid ei ystyried fel rhan angenrheidiol o ymagwedd proffesiynol.

**Eitem 2: Cyflwyniadau gan y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol, Anabledd Cymru, a'r Comisiwn Cyfle Cyfartal**

**Y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol (Ray Singh)**

2.1 Diolchodd Mr Singh i'r Aelodau am y cyfle i siarad â'r Pwyllgor a rhoes groeso i sylwadau adeiladol a chalonogol y Cadeirydd. Teimlai fod angen i'r Cynulliad edrych ar ddarlun ehangach o ran gwahaniaethu. Yr oedd angen gweithredu'n benodol o ran monitro ethnig, ymgynghori â grwpiau du ac ethnig, ac arweinyddiaeth.

2.2 Yr oedd monitro'n hanfodol er mwyn canfod a lleihau gwahaniaethu. Byddai ymgynghori â grwpiau du ac ethnig yn caniatáu i'r Cynulliad ddeall y problemau o'i flaen. Mae angen i'r Cynulliad roi cyfarwyddyd eglur ar y materion hyn. Yr oedd arweinyddiaeth yn hanfodol. Yr oedd rhoi pen ar wahaniaethu ar sail hil yn her ar gyfer y mileniwm i'r Deyrnas Unedig gyfan ond yn enwedig i Gymru. Yr oedd yn rhaid gweithredu er mwyn sicrhau bod hyn yn digwydd ac yr oedd gan y Pwyllgor ran hanfodol i'w chwarae.

**Y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol (Cherry Short)**

2.3 Cytunai Ms Short â sylwadau ei chyd-Gomisiynydd. Ychwanegodd y gallai'r fforwm ymgynghori lleiafrifoedd du ac ethnig a'i is-grwpiau helpu'r Cynulliad i gael barn uniongyrchol y cymunedau du ac ethnig. Bu'r cymunedau hyn yn rhan o gymdeithas Cymru ers cenhedloedd a dylent fod yn gallu lleisio eu barn yn y Cynulliad.

**Anabledd Cymru (Howard John)**

2.4 Cymdeithas genedlaethol grwpiau anabledd Cymru yw Anabledd Cymru sy'n gweithio i hybu hawliau, cydnabyddiaeth, cynhwysiant a chymorth i bobl anabl. Dywedodd Mr John fod yr ystadegau'n awgrymu bod gan dros 400,000 o bobl Cymru amhariad corfforol neu synhwyrol, anhawster dysgu neu broblem iechyd meddwl. Yr oedd oedran yn chwarae rhan mewn amhariadau corfforol a synhwyrol ac mae newid demograffig yn effeithio arnynt hefyd.

2.5 Effeithiai pob un o benderfyniadau a pholisïau'r Cynulliad ar bobl anabl ac mae gan bob penderfyniad a pholisi sy'n effeithio ar bobl anabl oblygiadau i'r gymuned ehangach. Yr oedd hyn yn cynnwys gwaith adrannau ac asiantaethau'r Cynulliad, cyrff a noddir gan y Cynulliad a chyrff sy'n cael eu monitro drwy'r Cynulliad o dan raglenni a ariennir gan Ewrop.

2.6 Wrth drafod dywedodd yr Aelodau fod trefniadau mynediad adeilad newydd y Cynulliad yn destun pryder. Cytunodd y Pwyllgor i gymryd diddordeb yng nghynlluniau'r adeilad newydd a gofynnwyd i'r Cadeirydd godi'r mater â'r Prif Ysgrifennydd.

**Y Comisiwn Cyfle Cyfartal (Mary Dunford)**

2.7 Dywedodd Ms Dunford fod llawer o anghydraddoldeb rhwng benywod a gwrywod yn y gweithle. Yr oedd cyfle cyfartal o ran gwaith a hyfforddiant yn hanfodol a gallai'r Cynulliad fabwysiadu model o arferion da a allai gyflawni'r amcanion hyn. Yr oedd angen i'r Cynulliad wreiddio cyfartaledd ym mhob un o'i bolisïau a'i fecanweithiau cyflawni. Yr oedd data sylfaenol yn hanfodol er mwyn gosod targedau go iawn.

2.8 Yr oedd y pwyslais ar roi'r mater wrth galon y Cynulliad yn adeiladol ond byddai angen hyfforddi pob un o'i weithwyr. Yr oedd anghydraddoldeb gendr o ran tâl yn bodoli o hyd. Byddai ymagwedd radicalaidd yn gofyn am archwiliad tâl i gael gwared ar anghydraddoldeb fel rhan o weithdrefnau cydymffurfio â chontractau'r Cynulliad.

2.9 Diolchodd y Pwyllgor i'r tri chorff am eu cyflwyniadau. Byddai diddordeb mawr gan y Pwyllgor wrth sicrhau bod trafod â grwpiau sy'n cynrychioli diddordebau lleiafrifoedd a'r rhai o dan anfantais yn digwydd ar bob lefel yn y Cynulliad. Yr oedd Aelodau'r Pwyllgor o blaid rhoi gwahoddiad sefydlog i bob un o'r tri chorff i fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor fel ymgynghorwyr yn unol â Rheol Sefydlog 14.4.

**Eitem 3 ar yr agenda: Cyflwyniad gan yr Uned Polisi Cydraddoldeb**

3.1 Esboniodd Kate Cassidy ran ehangach ei Hadran a gwahodd Charles Willie i esbonio swyddogaeth yr Uned. Dywedodd ef fod yr uned wedi'i chreu i roi cyfle cyfartal wrth galon holl

bolisïau a swyddogaethau’r Cynulliad. Yr oedd wedi ceisio mabwysiadu ymagwedd gynhwysfawr a chael hyd i ymagwedd gydlynol i bob mater cydraddoldeb. Un o amcanion allweddol yr Uned oedd rhoi’r medrau a’r wybodaeth i adrannau trwy gydol y Cynulliad iddynt ystyried cyfle cyfartal yn llawn. Yr oedd cysylltiadau da wedi’u sefydlu â chyrff allanol ac yr oedd yr Uned wedi cynhyrchu Cynllun Gweithredu y byddai’r Pwyllgor yn ei ystyried o dan yr eitem nesaf ar yr agenda.

**Eitem 4: Ymagwedd arfaethedig i gyfle cyfartal o fewn Cynulliad Cenedlaethol Cymru Papur EOC 01-99 (p.1)**

4.1 Cyflwynodd y Cadeirydd bapur EOC-01-99(p.1) a ofynnai i’r Pwyllgor gefnogi ei chynigion ar gyfer bwrw ymlaen â chyfle cyfartal yn y Cynulliad. Byddai’r canolbwynt ar anabledd, hil a gendr ar y dechrau. Mater i’r Cynulliad cyfan fyddai Cyfle Cyfartal yn hytrach nag i’r Pwyllgor Cyfle Cyfartal yn unig. Byddai gan y Cadeirydd, Ysgrifenyddion y Cynulliad, y Pwyllgor Cyfle Cyfartal, y pwyllgorau eraill a’r Cynulliad cyfan ran strategol i’w chwarae er mwyn cyflawni hyn.

4.2 Asesiad sylfaenol oedd man cychwyn y Cynllun Gweithredu er mwyn canfod safle’r Cynulliad o ran cyfle cyfartal ar draws pob maes ac fel corff cyfan. Yn ail, byddai pob Ysgrifennydd Cynulliad yn cynnig blaenoriaethau a thargedau ar sail yr asesiad hwnnw. Yn drydydd, yr oedd angen codi ymwybyddiaeth a dyfnhau dealltwriaeth. Yr oedd angen i bob rhan o’r Cynulliad ddatblygu cysylltiadau â’r rhai sy’n cynrychioli grwpiau sydd o dan anfantais a llunio polisïau ar sail y cyngor a chanllawiau a ddarperir.

4.3 Croesawodd yr Aelodau’r ymagwedd hon. Cymeradwywyd y canolbwynt cychwynnol ar anabledd, hil a gendr er bod yr Aelodau’n nodi’r angen i ystyried ffynonellau eraill o wahaniaethu a dieithriwch cymdeithasol gan gynnwys oedran, credoau crefyddol a thuedd rywiol. Yr oedd sylwadau eraill, gan gynnwys:

- dymunoldeb trafod adroddiadau blynyddol y cyrff cydraddoldeb perthnasol

- yr angen i fonitro rhaglenni gwaith y pwyllgorau pwnc. Gofynnwyd i’r Clerc roi manylion o’r rhain. Dylai’r Cadeirydd godi’r mater o ddiffyg cynrychiolaeth ar y Pwyllgor Addysg o dan 16 Oed, a’r Pwyllgor Ewropeaidd gyda’r Prif Ysgrifennydd

- yr angen i bob Aelod a staff gael hyfforddiant priodol

- dylai’r ymagwedd gynnwys cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad

- dylai’r Pwyllgor ddangos y ffordd ymlaen a chymryd camau ymarferol i gadarnhau ei ymagwedd lle bo angen.

**Eitem 5: Blaen-raglen waith a Gweithdrefnau**

5.1 Dywedodd y Cadeirydd y byddai’r Pwyllgor yn ceisio cyfarfod unwaith y mis. Cytunodd yr Aelodau mai sesiwn briffio fyddai’r cyfarfod nesaf, ar 16 Medi. Yr oedd yn bosib hefyd y byddai sesiynau briffio ychwanegol yn yr hydref pe byddai eu hangen. Byddai’r Cadeirydd yn cylchredeg rhaglen awgrymedig. Cytunwyd y bydd y Pwyllgor yn cyfarfod y tu allan i Gaerdydd unwaith y flwyddyn o leiaf.

5.2 Nododd y Cadeirydd fod ceisiadau yn dod i’w llaw oddi wrth gyrff â diddordeb yn gofyn am gyfarfod â’r Pwyllgor. O gofio pwysau amser yr Aelodau, er y byddai rhai cyrff yn cael eu gwahodd i gyfarfod â’r Pwyllgor cyfan o bosib, cytunwyd y dylai dirprwyaethau amlbeidiol gyfarfod ag eraill a rhoi adroddiadau yn ôl i’r Pwyllgor. Cytunai’r Aelodau y dylai dirprwyaethau gyfarfod â Phwyllgor Menywod TUC Cymru a Gwasanaeth Ymgynghorol Cydraddoldeb Cysylltiadau Hiliol.

5.3 Codwyd pryder ynghylch a fyddai digon o weithwyr yn yr Uned Polisi Cyfartaledd i gyflawni’r rhaglen waith sylweddol a oedd newydd ei mabwysiadu. Nododd y Cadeirydd y pryderon hyn.

4. Daeth y cyfarfod i ben am 12.35pm.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Gorffennaf 1999**